



**Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd  
Cyfarfod Cabinet Rhanbarthol**

10.30am-12.30pm ddydd Llun 15 Gorffennaf 2019  
Ystafell Ebbw, Tŷ Penallta, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili,  
Parc Tredomen, Ystrad Mynach, CF82 7FQ

**Cofnodion**

**Yn bresennol**

**Arweinwyr a Phrif Weithredwyr**

Y Cyng. Nigel Daniels	Arweinydd	CBS Blaenau Gwent
Michelle Morris	Rheolwr Gyfarwyddwr	CBS Blaenau Gwent
Y Cyngorydd Huw David	Arweinydd	CBS Pen-y-bont ar Ogwr
Mark Shepherd	Prif Weithredwr	CBS Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cyngorydd David Poole	Arweinydd	CBS Caerffili
Christina Harrhy	Prif Weithredwr	CBS Caerffili
Y Cyngorydd Caro Wild	Aelod Cabinet	Cyngor Caerdydd
Paul Orders	Prif Weithredwr	Cyngor Caerdydd
Y Cyngorydd Kevin O'Neill	Arweinydd	CBS Merthyr Tudful
Y Cyngorydd Peter Fox	Arweinydd	CS Sir Fynwy
Paul Matthews	Prif Weithredwr	CS Sir Fynwy
Y Cyngorydd Debbie Wilcox	Arweinydd	CS Casnewydd
Y Cyngorydd Andrew Morgan	Arweinydd	CBS Rhondda Cynon Taf
Chris Bradshaw	Prif Weithredwr	CBS Rhondda Cynon Taf
Y Cyngorydd Anthony Hunt	Arweinydd	CBS Torfaen
Alison Ward	Prif Weithredwr	CBS Torfaen
Y Cyngorydd Neil Moore	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Carys Lord	Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151	Cyngor Bro Morgannwg

**Swyddogion**

Christopher Lee	Swyddog Adran 151	Corff Atebol
Gareth Gates	Cyfrifydd	Corff Atebol
Elizabeth Weale	Cyfreithiwr	Corff Atebol
Jenna Walters	Cyfreithiwr	Corff Atebol
Kellie Beirne	Cyfarwyddwr	Swyddfa Bargen Ddinesig
Rhys Thomas	Arweinydd Strategol	Swyddfa Bargen Ddinesig
Nicola Somerville	Arweinydd Strategol	Swyddfa Bargen Ddinesig
Liz Fitzgerald (cofnodion)	Swyddog Cymorth C&P	Swyddfa Bargen Ddinesig
Bev Owen	Cyfarwyddwr Strategol - Lle	CS Casnewydd

## **Gwesteion ac Arsylwyr**

Sara-Jane Byrne	Rheolwr Archwilio Perfformiad	Swyddfa Archwilio Cymru
Ian Phillips Alastair Milburn	Archwilydd Perfformiad Rheolwr Gyfarwyddwr	Swyddfa Archwilio Cymru Effeithiol

## **Ymddiheuriadau**

Hrjinder Singh Y Cynghorydd Huw Thomas	Rheolwr Cyfrifeg Arweinydd	Corff Atebol Cyngor Caerdydd
Y Cynghorydd Emlyn Dole Y Cynghorydd Rob Stewart	Arweinydd Arweinydd	CS Sir Gaerfyrddin Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Gareth Chapman Will Godfrey Rob Thomas	Prif Weithredwr Prif Weithredwr Prif Weithredwr	CBS Merthyr Tudful CS Casnewydd Cyngor Bro Morgannwg

### **1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

Agorodd y Cynghorydd Morgan y cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.

### **2. Datgan Buddiannau**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

### **3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2019**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin.

### **4. Cynllun Busnes Blynyddol 2019-20 – Adroddiad Perfformiad Chwarter 1**

1. Cyflwynodd Kellie yr adroddiad a chadarnhaodd fod newidiadau wedi'u gwneud i'w wneud yn haws ei ddarllen ac yn fwy cynhwysfawr. O Ch2 ymlaen, byddai traciwr cynlluniau ar y gweill a thraciwr cynnydd prif brojectau. Roedd yn cynrychioli agwedd fwy cynhwysfawr ac ysgafn. Croesawodd y Cynghorydd Morgan yr adroddiad a'r fformat newydd a gofynnodd am sylwadau.
2. Dywedodd y Cynghorydd Wilcox ei bod yn dda gweld bod perfformiad cyffredinol yn dda a nododd bod angen iddynt ddangos ystod ehangach o weithgareddau. Dywedodd y Cynghorydd Wilcox yr hoffai ddeall y sefyllfa gyda Nesta'n well. Dywedodd Kellie fod adroddiad wedi'i rannu gyda PhSRh P-RC ac y byddai diweddariad arall yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet Rhanbarthol wedi i'r Cynllun Sgiliau gael ei lunio yn yr hydref.

**PENDERFYNWYD** bod Cabinet Rhanbarthol P-RC yn:

- a) nodi'r cynnydd cyffredinol yn Chwarter 1 2019/20, gan gynnwys sefyllfa'r gyllideb a adroddiad yn Atodiad 5;

- b) ystyried ac wedi penderfynu ei bod hi'n dderbyniol i gymeradwyo adroddiad perfformiad Chwarter 1;
- c) awdurdodi'r Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer y Fargen Ddinesig - Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gyflwyno'n ffurfiol adroddiad perfformiad Chwarter 1, gan gynnwys gwybodaeth wrth gefn i Lywodraeth y DU ac i Lywodraeth Cymru, ac i randdeiliaid eraill yn ôl yr angen, ar ran y Cabinet Rhanbarthol.

**3. Adolygiad SAC o Drefniadau Llywodraethiant ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer Blwyddyn Archwilio 2018-19**

1. Cadarnhaodd Ian Phillips ei fod wedi cynnal cyfarfodydd un-i-un a'i fod hefyd wedi arsylwir ar rai o gyfarfodydd y BSRh a'r CBRh. Cydnabu gynnydd a datblygiadau'r rhanbarth; roedd y cynllun diwydiannol yn bwysig ac roedd gan y rhanbarth fframwaith rheoli perfformiad ar waith. Nododd fod angen cryfhau gwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ond ei fod yn deall bod y gwaith hwn ar y gweill. Nododd yr adroddiad faterion y mae angen mwy o waith arnynt megis tryloywder, ymgysylltu cyhoeddus a'r posibilrwydd o gyrrff ymgynghorol yn cysylltu'n well. Yn gyffredinol mae cynnydd wedi'i wneud.
2. Nododd y Cynghorydd Wilcox nad yw'r mater ynghylch ymgysylltu cyhoeddus yn berthnasol i gorff P-RC, mae'n berthnasol i gyrrff cyhoeddus eraill. Roedd trafodaeth gyffredinol am y materion yn ymwneud ag ymgysylltu cyhoeddus.
3. Dywedodd y Cynghorydd Fox y gellir gwneud mwy ar ymgysylltu cyhoeddus. Er enghraifft, gallai rhai aelodau o'r cyhoedd ddewis gwyllo'r cyfarfodydd yn fyw. Gallai'r dewis hwn fod yn gam ymlaen iach. Gofynnodd a ellir defnyddio [www.gov.uk](http://www.gov.uk) mewn rhyw ffordd.
4. Gofynnodd Alison Ward a ddylai cyfarfodydd Bwrdd Rhaglenni'r Prif Weithredwr gynnwys datganiadau o fuddiant; cadarnhawyd bod hyn yn syniad da. Tynnodd y Cynghorydd Poole sylw at y ffaith nad yw datganiadau'n berthnasol i gynghorwyr yn unig ond i swyddogion hefyd.
5. Croesawodd y Cynghorydd David y cynnydd wedi'i wneud. Gofynnodd a allai'r Cabinet Rhanbarthol roi gwybod mewn, dyweder, 6 mis a yw'r camau gweithredu wedi'u cwblhau fel y gallai'r Cabinet Rhanbarthol sicrhau eu hunain eu bod wedi cydymffurfio.
6. Cymeradwyodd Kellie Beirne yr holl gynigion ar gyfer gwella wedi'u codi yn yr adroddiad. Nododd y byddai'r Arweinydd Marchnata a Chyfathrebu yn swyddfa'r Fargen Ddinesig yn helpu gydag ymgysylltu cyhoeddus; creu swyddi ac y byddai'r gronfa gatalydd tai hefyd yn helpu i ddangos yr hyn y gallant ei wneud.
7. **PENDERFYNWYD** bod Cabinet Rhanbarthol P-RC:
  - a) yn nodi canfyddiadau Adolygiad SAC o Drefniadau

Llywodraethiant CPRC ar gyfer y Blwyddyn Archwilio 18-19 a chymeradwyo'r camau gweithredu cyfatebol sydd ar waith/sydd eisoes ar y gweill i fynd i'r afael â nhw a'u gweithredu'n llawn.

#### **4. Cyngor Busnes Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Cynllun Busnes 2019/20**

1. Cyflwynodd Kellie Beirne yr adroddiad sy'n nodi'r cynllun arfaethedig ar gyfer y CBRh ar gyfer 2019/20. Mae'r Cynllun Busnes yn canolbwyntio ar feysydd ynghylch cyfathrebu, ymgysylltu a gwelededd, gwneud busnes ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd a hyrwyddo buddsoddi a arweinir gan heriau. Dangosodd aeddfedrwydd cynyddol y CBRh ond roedd mwy o waith i'w wneud. Y tu hwnt i MIPIM, byddai llawer mwy o ffocws ar sectorau a chlystyrau gydag aelodau'r CBRh yn ymgysylltu'n weithredol â'i rwydweithiau a'u dylanwadu. Byddai hyn yn faes ffocws allweddol a phrawf allweddol ar y CBRh. Un o'r meysydd adolygiad gateway y tynnwyd sylw ato oedd ynghylch ymgysylltu â busnes; felly cynhwyswyd gofyniad buddsoddi o £24k i gefnogi gweithgarwch felly; hefyd roedd targedau noddi wedi'u sefydlu ar gyfer y CBRh er mwyn helpu i ddylanwadu ar eu rhwydweithiau. Nododd Kellie Beirne y byddai SQW Rhagfyr 2019, ar ran y Fforwm Gwerthuso Cenedlaethol, yn dechrau'r adroddiad 'un flwyddyn allan' i lywio'r Adolygiad Gateway.
  2. Gwerthfawrogodd y Cynghorydd Fox y gwaith wedi'i wneud a dywedodd fod yr adolygiad gateway yn amser ddelfrydol i fyfrio ar sut mae pethau'n datblygu. Yn wreiddiol, roedd gobaith y byddai'r CBRh yn sefyll ar ei draed ei hun ac roedd yn teimlo ei fod yn nesáu at y sefyllfa honno. Roedd yn hapus cefnogi'r adroddiad a'r argymhellion.
  3. Cadarnhaodd y Cyng Morgann ei fod yn hapus cefnogi'r adroddiad a'r argymhellion ond roedd ymwybodol o'r gofyniad £24k; dywedodd y dylent atgoffa'r CBRh ei fod yn gorff rhanbarthol ac nid un sy'n ymwneud â Chaerdydd yn unig. Roedd yn falch fod y digwyddiadau ymgysylltu â busnesau'n digwydd ond disgwyliodd fwy nag un neu ddau o ddigwyddiadau. Roedd llawer o BBaChau llai y dylid ymgysylltu â nhw a gofynnodd a fyddai'r CBRh yn ei ddala. Awgrymodd y Cyng Fox ei fod ef a'r Cyng Moore yn ymgysylltu â Chadeirydd y CBRh yn agosach.
4. **PENDERFYNWYD** bod Cabinet Rhanbarthol P-RC:
- a) yn cymeradwyo Cynllun Busnes y Cyngor Busnes Rhanbarthol ar gyfer 2019/20 a gwariant cysylltiedig gwerth £24,100 sy'n cynrychioli'r cyfraniad sydd ei angen gan y Fargen Ddinesig er mwyn bodloni'r amcanion a nodir yn y cynllun;
  - b) yn nodi'r cyfraniadau mewn nwyddau a'r targedau noddi o £31,000 i'w gwneud gan y Cyngor Busnes Rhanbarthol – sy'n cynrychioli trosoledd da ac yn dangos gwerth ymrwymiad ac ymgysylltiad y Cyngor Busnes Rhanbarthol.

#### **5. Cronfa Cryfder mewn Lleoedd – Ton 2**

1. Cyflwynodd Kellie Beirne ac aeth hi trwy'r adroddiad.
2. Dywedodd y Cyng Wilcox fod medtech yn bwysig iawn i'r rhanbarth; byddai'r cynnig yn ffordd bwysig o ysgogi'r sector hwn o'r economi. Cytunodd y Cyng Fox a dywedodd mai'r peth allweddol yw projectau a allai ysgogi'r rhanbarth cyfan; dangosodd yr adroddiad ei fod yn faes pwysig iawn. Hefyd roedd y Cyng Morgan yn hapus ei gefnogi ond awgrymodd fod angen polisi moesegol o ystyried natur y gwaith. Dywedodd Kellie nad oedd yn hanfodol ar y cam hwn ond y byddai angen ei ystyried wrth i faterion symud yn eu blaen. Dywedodd y Cyng David, hyd yn oed os nad yw'r cais SIPP yn llwyddiannus, eu bod dal i ddatblygu clwstwr ac ecosystem ar gyfer y clwstwr hwnnw a fyddai o werth mwy i'r rhanbarth.

3. **PENDERFYNWYD** bod Cabinet Rhanbarthol P-RC:

- a) ym nodi'r cynnydd wedi'i wneud o ran datblygu consortiwm cryf i ddatblygu Datganiadau o Ddiddordeb Cryfder mewn Lleoedd Ton 2 ynghylch y thema Dyfeisiau a Diagnosteg Meddygol;
- b) yn cymeradwyo hyd ta £50,000 o gyllideb Datblygu Rhaglenni a Chymorth Cronfa Fuddsoddi Ehangach CPRC i dalu costau sy'n gysylltiedig â chreu tîm project fel y nodir yn yr adroddiad;
- c) dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio a Swyddog a151 y Cydbwyllgor) i gwblhau a chyflwyno'r Datganiadau o Fuddiant ar 9 Hydref 2019;
- d) cytuno, os yw'r Datganiadau o Fuddiant yn llwyddiannus ac os yw'r Arian Cryfder mewn Lleoedd, i ddatblygu'r cynnig ('y Cynnig Manwl') bod:
  - i. CPRC (gyda phartneriaid i'r cais ac o fewn terfynau'r arian sy'n cael ei roi), yn gwneud y gwaith sydd ei angen i ddatblygu'r Cynnig Manwl; ac
  - ii. adroddiad pellach (gydag achos busnes ategol) yn cael ei gyflwyno i Gabinet Rhanbarthol i geisio cymeradwyaeth o unrhyw gyfraniad ariannol sydd ei angen gan Gronfa Fuddsoddi Ehangach CPRC yn rhan o'r Cynnig Manwl.
- e) yn cytuno, os nad yw'r Datganiadau o Fuddiant yn llwyddiannus, i ddirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i weithio gyda phartneriaid y consortiwm i gyflwyno datganiad o fuddiant arall mewn rowndiau ddilynol y rhaglen Cronfa Cryfder mewn Lleoedd ( yn unol â'r agwedd a'r egwyddorion a nodir yn yr adroddiad hwn).

4. **Adroddiad ar Ymyriadau Digidol ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd**

1. Cyflwynodd Kellie ac aeth hi trwy'r adroddiad oedd yn rhoi diweddariad. Byddai angen i Swyddfa'r Fargen Ddinesig fynd â'r gwaith wedi'i wneud

hyd yn hyn gan Cube Ultra ymlaen ond byddai gweithgarwch y dyfodol yn newid yn sylweddol. Roedd y cais LEFN dan Ton 2 wedi'i gyflwyno a'i symud ymlaen gan awdurdodau lleol Casnewydd, Sir Fynwy, Blaenau Gwent a Thorfaen. Yn wreiddiol, y bwriad oedd defnyddio rhwydwaith unigol o adeiladau ysgol a fyddai at ddefnydd cwsmeriaid busnes. Wedi trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a DCMS, nid oedd hyn yn bosibl mwyach. Mae'r project newydd yn creu cysylltedd lefel sylfaenol ledled y rhanbarth. Roedd Dirprwy Weinidog yr Economi wedi cychwyn adolygiad PSBA ac roedd P-RC yn rhan o'r trafodaethau hynny. Roeddent bellach yn bwriadu datblygu un cynllun digidol ar gyfer y rhanbarth. Roeddent wedi ymgysylltu'n helaeth â'r farchnad oedd wedi nodi y gallent edrych i weithio ar sail ROI. Roedd P-RC bellach wedi cytuno gyda Llywodraeth Cymru y gallent gael cronfa fuddsoddi ar y cyd gyda nhw ar gyfer projectau digidol ar sail talu yn ôl os nad yw arian cyhoeddus ar gael.

2. Cyfeiriodd y Cyng Wilcox yn ôl i'w sylwadau blaenorol am yr hyn oedd yn digwydd yn Lloegr; roedd hi wedi'i siomi gan yr adroddiad gan ei fod yn dangos faint sydd angen i'r rhanbarth ei wneud o ran cysylltedd ffeibr llawn. Cefnogodd y cynnig i gefnogi buddsoddiad ond teimlodd ei bod yn rhywfaint is-optimaidd. Teimlodd fod y strategaeth wedi'i gyrru gan arian yn hytrach na'r hyn sydd ei angen. Mewn realiti, nid oedd ganddynt lawer o opsiynau ond roedd angen iddynt gefnogi'r cam gweithredu. Cytunodd KB ei bod yn is-optimaidd mewn perthynas â'r cynnig gwreiddiol ond roedd yr opsiynau'n gyfyngedig ac nid oedd unrhyw lwybrau eraill ar gael mewn perthynas ag arian.
3. Dywedodd y Cyng David ei bod yn adlewyrchu byd digidol sy'n datblygu'n gyflym. Roedd cyflymder yn cyflymu ac yn newid trwy'r amser. Dywedodd ei bod yn bwysig bod yr adroddiad yn adlewyrchu hynny'n hytrach na pharhau i symud cynlluniau yn eu blaen ar fyd digidol sydd eisoes wedi symud ymlaen. Roedd cysylltedd digidol wrth galon popeth. Pe gallen nhw sicrhau buddsoddi pellach, byddai'n bositif ac yn eu galluogi i ailflaenoriaethu arian arall.
4. **PENDERFYNWYD** bod Cabinet Rhanbarthol P-RC:
  - a) yn nodi'r gwaith wedi'i gwblhau mewn perthynas â'r achos busnes a gynigiwyd yn wreiddiol ar gyfer seilwaith digidol a atodwyd yn Atodiad 1;
  - b) yn cymeradwyo y newid mewn cyfeiriad a nodwyd yn yr adroddiad hwn ynghylch seilwaith digidol, yn benodol mewn perthynas â'r cais LFFN wedi'i ail-leoli;
  - c) yn nodi gwaith datblygu un cynllun seilwaith digidol a rennir ar gyfer P-RC gyda Llywodraeth Cymru ac egwyddor datblygu achos busnes ar gyfer 'cronfa bontio' ar y cyd gyda LIC, fydd yn destun adroddiad pellach wedi gwaith sylfaenol allweddol ac a fydd yn cael ei gyflwyno fel cynnig i'r Fframwaith Buddsoddi;
  - d) yn cymeradwyo'r pwyslais ar siapio'r agenda digidol ehangach yn

unol â'r blaenoriaethau wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Twf Diwydiannol a thrwy'r Prosbectws Buddsoddi sydd i ddod.

- e) yn cytuno i dalu costau sy'n gysylltiedig â datblygu'r LFFN hyd yn hyn, gan nodi:
  - i. bod y costau o 91,000 wedi'u gwario hyd yn hyn gyda'r £15,000 pellach sydd ei angen i gwblhau'r cais diwygiedig, sydd, wrth ei wrthbwyso yn erbyn yr adnoddau sydd ar gael o'r gwaith achos busnes digidol gwreiddiol, yn dod i £59,000; a
  - ii. cyflwyniad LFFN DCMS Wave 2 diwygiedig a atodwyd yn Atodiad 2;
- f) yn cytuno i ddirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio a Swyddog a151 y Cydbwyllgor) i gwblhau'r cais wedi'i ail-leoli, o fewn y paramedrau ariannol wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad hwn;
- g) yn cytuno i ail-leoli'r arweinydd ar gyfer y cynllun LFFN rhanbarth diwygiedig gan Gyngor Dinas Casnewydd i Swyddfa'r Fargen Ddinesig a nodi y caiff adroddiad diweddarau ei gyflwyno'n y man.

## 5. Portffolios Diwygiedig y Cabinet Rhanbarthol

- 1. Cyflwynodd Kellie yr adroddiad ac aeth hi trwy ddyraniadau portffolio arfaethedig y Cabinet.
- 2. **PENDERFYNWYD** bod Cabinet Rhanbarthol P-RC:
  - a) yn nodi a chymeradwyo Prif Ddeiliaid Portffolio'r Cabinet fel y nodir yn yr adroddiad.

**KB**

### **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Dydd Llun 9 Medi 2019 yn Ystafell Ebbw, Tŷ Penallta, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Parc Tredomen, Ystrach Mynach, CF82 7FQ